Cynllun ar Dudalen

Cynllun Gweithlu Strategol ar Gyfer Gofal Sylfaenol (SWPPC)

Pam fod angen y prosiect?

Mae yna nifer o ffactorau allweddol sy'n symbylu'r angen am SWPPC, yn enwedig heriau sylweddol ar ran y gweithlu sy'n effeithio ar gynaliadwyedd gwasanaethau gofal sylfaenol. Mae'r symbylwyr yn cynnwys:

- Mae'r cynllun gweithlu blaenorol, a ddatblygwyd yn 2015, wedi dyddio bellach;
- Newidiadau sylweddol i amrywiant y gweithlu ers 2015 heb gynllun trosfwaol i ddarparu cyd-destun er budd datblygu'r gweithlu i'r dyfodol;
- Materion cynyddol o ran cynaliadwyedd ar draws y maes gofal sylfaenol ar sail recriwtio a chadw staff;
- Proffil oedran presennol grwpiau proffesiynol allweddol (e.e. Nyrsys Ymarfer Cyffredinol) sy'n hanfodol i ddarparu gwasanaethau gofal sylfaenol yn effeithiol;
- Disgwyliadau newidiol y gweithlu (cynnydd mewn LTFT / patrymau gweithio hyblyg);
- Effaith economaidd / ariannol ar ddarpariaeth gofal mewn meysydd penodol (e.e., deintyddiaeth);
- Materion byd-eang / cenedlaethol sy'n effeithio ar weithlu'r dyfodol (ffactorau economaidd / cymdeithasol; costau byw);
- Datblygiadau technolegol sy'n ail-lunio gofal (e.e. AI, Dadansoddeg Ragfynegol, Genomeg);
- Newidiadau o ran safonau addysg a hyfforddiant; newid siâp gweithlu'r dyfodol;
- Diwygiad cytundebol modelau contractwyr annibynnol yng Nghymru;
- Proses adfer wedi Covid-19, Polisi Mewnfudo ac effaith Brexit

Beth yw cwmpas y prosiect?

Mae'r gwaith o fewn y cwmpas yn cynnwys:

- ✓ Darparu gwasanaethau gofal sylfaenol mewn practisau, clystyrau neu ardaloedd daearyddol eraill gan gynnwys y gwasanaethau a ddarperir drwy law contractwyr annibynnol, practisau dan reolaeth neu fodelau a gyflogir gan y Bwrdd Iechyd;
- ✓ Y gweithlu sy'n angenrheidiol i ddarparu gofal sylfaenol i grwpiau sy'n agored i niwed—fel unigolion ymhlith y boblogaeth carchardai, neu ble mae rhwystrau penodol o ran cyrchu gofal yn achos grwpiau agored i niwed;
- ✓ Y gweithlu sy'n angenrheidiol i ddarparu gofal sylfaenol brys gan gynnwys gwasanaethau clinigol cyswllt cyntaf (fel y rhai a ddarperir gan y gwasanaeth 111 a'r gwasanaeth Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau);

I osgoi dyblygu gwaith a gynhelir mewn mannau eraill, nid yw'r cwmpas yn cynnwys:

- ✓ Gofal cymdeithasol, gwasanaethau 999 a darpariaeth gwasanaethau gan y sector annibynnol a'r trydydd sector. Fodd bynnag, cydnabyddir bod y gwasanaethau hyn yn bwysig o fewn y cyd-destun ehangach. O'r herwydd bydd angen profi aliniad yn barhaus fel rhan o ddatblygiad y cynllun, yn enwedig aliniad â'r fframwaith AHP.

Pwy fydd yn traddodi'r prosiect hwn?

Arweinydd DPCC: Chris O'Connor – Cyfarwyddwr Dros Dro Gofal Sylfaenol ac Iechyd Meddwl (BIPAB)
Arweinydd Prosiect: Dorothy Edwards – Cyfarwyddwr Rhaglenni, Rhaglenni Cenedlaethol (AaGIC)
Arweinydd Gweithlu'r Prosiect: Abi Powell – Arweinydd Gweithlu Gofal Sylfaenol / Rheolwr Prosiect (AaGIC)
Rheolwr Prosiect: Samantha Jeffries – Rheolwr Prosiect (SPPC)

Cyflawniadau allweddol:

Cam 1 – Dechreuad: Edrych i'r dyfodol / ymchwil cychwynnol (Tachwedd - Ionawr 23)
- Cytuno ar gwmpas y prosiect, sefydlu trefniadau llywodraethu a chwblhau dogfennaeth y prosiect;
- Dechrau gwaith mapio manwl ac edrych i'r dyfodol ar sail rhanddeiliaid;
- Datblygu briff data, cyfathrebu a strategaethau ymgysylltu.

Cam 2 – Ymgysylltu a data (Chwefror – Ebrill 23)
- Comisiynu a chyflwyno strategaethau ymgysylltu / cyfathrebu
- Dadansoddi a chasglu data
- Ystyriaeth leol / cenedlaethol

Cam 3 – Llunio'r cynllun (Ebrill - Mehefin)
- Llunio set gychwynnol o syniadau a chamau gweithredu i'w profi'n ehangach gyda rhanddeiliaid.

Cam 4 – Profi gyda rhanddeiliaid (Gorffennaf – Awst)
- Mireinio'r cynllun ac ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol ledled Cymru.
- Prisio'r gwaith a darparu camau gweithredu lefel uchel yn gyfochr â hyn.

Cam 5 – Cwblhau a chymeradwyo (Medi - Hydref)
- Cynllun terfynol drafft
- Cymeradwyo'r cynllun terfynol a datblygu fframwaith gweithredu sy'n cyd-fynd â chylch cynllunio'r IMTP.

Cam 6 – Llunio cynllun gweithredu – manylion i'w cadarnhau.

Deilliannau / meini prawf llwyddiant:

- Deall a dirnad ysgogwyr ***galw*** cyfredol. Nodi ffactorau allweddol sy'n llywio'r galw am y 10 mlynedd nesaf;
- Deall datblygiadau technolegol a newidiadau sy'n prysur ddynesu yng nghyd-destun darpariaeth gofal iechyd;
- Nodi heriau a materion allweddol o ran yr ***elfen gyflenwi*** ar draws grwpiau proffesiynol ac ardaloedd yng Nghymru i greu fframwaith ar gyfer cronfeydd cyflenwi i'r dyfodol;
- Cyflwyno argymhellion i ategu datblygiad model ***gweithlu cynaliadwy*** i fwrw ymlaen â'r gwaith o gyflawni'r Model Gofal Sylfaenol i Gymru;
- Cydnabod y moddau o ddarparu'r ystod eang o wasanaethau sy'n cyd-fynd â gofal sylfaenol a'u rhyng-gysylltiad, a sut y bydd unrhyw newidiadau i fodelau gweithlu gofal sylfaenol yn effeithio ar y rhain;
- Darparu fframwaith clir ar gyfer gweithredu ar raddfa ***leol***, ***ranbarthol*** a ***chenedlaethol*** i danategu'r penderfyniadau a wneir o ran comisiynu addysg a hyfforddiant

Amserlen draddodi: 12 mis yn unol ag IMTP 2024/25

Cam 1 – Tachwedd 2022 – Ionawr 2023
Cam 2 – Chwefror – Ebrill 2023 (gan gofio gwyliau'r Pasg)
Cam 3 – Ebrill – Mehefin 2023
Cam 4 – Gorffennaf – Awst 2023 (gan gofio gwyliau ysgol / cyfnod yr haf)
Cam 5 – Medi – Hydref 2023 (cymeradwyo NPCB Tachwedd 2023)
Cam 6 – dyddiadau i'w cytuno arnynt.